# WILLIAM, THOMAS (1717 - 1765), cynghorwr Methodistaidd, a gweinidog Annibynnol wedyn

**Enw:** Thomas William
**Dyddiad geni:** 1717
**Dyddiad marw:** 1765
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cynghorwr Methodistaidd, a gweinidog Annibynnol wedyn
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 1717, mab melinydd Melin Corrwg, Eglwysilan, Morgannwg. Argyhoeddwyd ef dan weinidogaeth Howel Harris, c. 1738. Bu'n ysgolfeistr cylchynol, dechreuodd gynghori gyda'r Methodistiaid, ac apwyntiwyd ef yn arolygwr y seiadau ym Mro Morgannwg yn 1743. Yr oedd yn un o'r rhai a arwyddodd y neges i'r sasiwn yn 1745 ynghylch ordeinio'r cynghorwyr; cafodd ef a'i gyfaill William Edwards ryw fath o urddiad tua'r un amser gan seiat y Groes-wen. Cadwodd ei gyswllt â'r Methodistiaid, a bu'n wr ar ddeheulaw Harris ym mlynyddoedd cyntaf y rhwyg rhyngddo a Daniel Rowland. Diarddelwyd ef o blaid Harris yn 1752, ac enciliodd gyda seiat y Groes-wen at yr Annibynwyr. Bu farw ar daith bregethu yng Nghwm Rhondda, 16 Rhagfyr 1765, a'i gladdu ym mynwent y Cymer.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau


J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd* (1895-1897), i, 228

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, ii, 375-80

T. Thomas, *Hanes Ymneilltuaeth Gynnar yn y Watford*, 12

*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, iv, 41; vi, 14; xxi, 109

R. Bennett, *Methodistiaeth Trefaldwyn Uchaf, 1738–1852* (1929), 217

*Cardiff Manuscript* 4877


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821451


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu